Priodasau

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

AMGUEDDFA **CEREDIGION** MUSEUM

Llongyfarchiadau oddi wrth bob un ohonom yn Amgueddfa Ceredigion

Dewch i greu hanes yn Amgueddfa Ceredigion

Mae Amgueddfa Ceredigion wedi bod yn rhan o hanes Aberystwyth ers 1905 pan agorwyd hi'n theatr Edwardaidd hardd. Heddiw, mae'r adeilad hynod hwn yn gartref i arteffactau o'r dyddiau a fu yng Ngheredigion yn ogystal ag i arddangosfeydd dros dro cyffrous sy'n rhoi sylw i gelf a diwylliant o Geredigion a thu hwnt iddi. Saif Amgueddfa Ceredigion ar lecyn delfrydol yng nghanol Aberystwyth, dafliad carreg o arfordir rhyfeddol Aberteifi, ac mae'n dathlu gorffennol Ceredigion yn ogystal â'i phresennol a'i dyfodol.

Rydyn ni am i'ch diwrnod fod mor unigryw â'r lleoliad, felly rhannwch eich syniadau ysbrydoledig gyda ni a gwnawn ein gorau i'ch cynorthwyo i greu eich diwrnod hanesyddol eich hunan.

Eich Priodas yn Amgueddfa Ceredigion

Mae Amgueddfa Ceredigion yn lleoliad perffaith ar gyfer eich diwrnod arbennig - mae yma ddwy ystafell odidog i gynnal eich seremoni, bar â thrwydded lawn a dewisiadau o ran y wledd briodas.

Awditoriwm y Colisëwm
Agorwyd y lle gyntaf yn 1905 fel Theatr y Colisëwm a chynhaliwyd mwy na 5000 o ddigwyddiadau yn yr awditoriwm a oedd yn cynnwys neuadd gerdd Edwardaidd, ffilmiau cynnar, cyfarfodydd gwleidyddol a chyngherddau. Ar ôl troi'n sinema yn 1932, gwyliodd trigolion Ceredigion 3800 o ffilmiau yma. Heddiw, mae'r awditoriwm 3 llawr yn gartref i gasgliad Amgueddfa Ceredigion o gelf a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol y sir.
Mae lle yma i 100 o westeion, felly cymerwch eich addunedau priodas yn y lleoliad eiconig hwn a'i hanes cyfoethog o Geredigion, gyda'ch ffrindiau a'ch teulu o'ch cwmpas.

Yr Oriel
Mae'r rhan a neilltuwyd gennym ar gyfer arddangosfeydd dros dro yn hyfryd ac yn fan delfrydol ar gyfer cynnal priodas gartrefol gyda'ch teulu agos a'ch ffrindiau. Mae lle i 50 o bobl eistedd yma, mae'r naws yn ysgafn a golau ac mae'n edrych dros Fae Ceredigion a Thraeth y Gogledd yn Aberystwyth. Gallai arddangosfa deithiol o waith celf neu arteffactau o gasgliad Amgueddfa Ceredigion a thu hwnt i hynny fod yn y cefndir wrth i chi gymryd eich addunedau priodas.

Rhywbeth Bach Arbennig

Byddem wrth ein boddau'n gweithio gyda chi i wneud eich diwrnod yn un arbennig iawn felly rydym wedi llunio nifer o opsiynau i chi eu hystyried wrth i chi gynllunio'ch pecyn priodas.

Pecyn 1 - Defnydd ecsgliwsif o'r lleoliad am 3 awr
Pecyn 2 - Defnydd ecsgliwsif o'r lleoliad am 6 awr
*Chi yn unig fydd yn cael defnyddio'r amgueddfa/galeri/awditoriwm ond bydd siop yr amgueddfa yn parhau ar agor i'r cyhoedd yn ystod oriau busnes. Mae modd llogi Tŷ Coffi'r Coliseum drwy drefniant.

Mae pob priodas yn wahanol felly cysylltwch â'r Amgueddfa i drafod pa becyn fyddai orau ar eich cyfer chi a sut y gellir dod â'ch diwrnod mawr yn fyw.

Rhywbeth ychwanegol
Mae croeso i chi aros a pharhau â'r dathlu gyda'r hwyr. Gallwn gynnig ein gwasanaeth arlwyo mewnol a darparu canapés, bwyd bys a bawd neu hyd yn oed wledd briodas 3 chwrs. Bydd ein bar trwyddedig yno at eich defnydd ecsgliwsif chi.
Mae Bae Aberteifi, y promenâd a Chastell Aberystwyth, sydd ond dafliad carreg o'r lleoliad, yn llecynnau perffaith ar gyfer tynnu eich lluniau priodas.

Mae rhoi eich steil a'ch personoliaeth chi ar y diwrnod yn ei wneud hyd yn oed yn fwy cofiadwy. Gallwn gynnig gwasanaeth llogi llieiniau bwrdd a gorchuddio cadeiriau a gallwn addurno'r llwyfan er mwyn dod ag ychydig o ddrama i leoliad eich priodas.

Mae pob un o'n pecynnau ar gael ar gyfer seremoniau sifil hefyd. Trafodwch eich cynlluniau a'r nifer disgwyliedig o westeion gyda'n cydlynydd priodasau sydd yma i'ch cynghori a'ch cynorthwyo i gynllunio eich diwrnod.

Cysylltu â ni

Er mwyn trafod cynlluniau eich priodas a'r syniadau sydd gennych, cysylltwch â
Sarah Morton - sarah.morton@ceredigion.gov.uk
Carrie Canham - carrie.canham@ceredigion.gov.uk

Bydd Sarah neu Carrie yn hapus i drafod y math o becyn yr ydych yn ei ffafrio, nifer y gwesteion, y dewisiadau o ran yr arlwyo ac addurno'r lleoliad a byddan nhw'n croesawu unrhyw syniadau mawr a fydd gennych ar gyfer y diwrnod pwysig.

Yn ogystal â thrafod gyda ni, bydd angen i chi gysylltu â'r Cofrestrydd er mwyn gwneud trefniadau ar gyfer y diwrnod. Bydd dau Gofrestrydd yn bresennol yn eich priodas, bydd un yn cynnal y seremoni a bydd y llall yn cofrestru'r briodas. Mae pob ffi sy'n daladwy i'r Cofrestrydd yn swm ar wahân i unrhyw ffi a godir gan Amgueddfa Ceredigion.


PENGUIN CAFE
COLISEUM

Rydyn ni mor gynhyrfus ein bod yn rhan o'ch diwrnod arbennig

ANNOG CHWILFRYDEDD

Dathliad o dreftadaeth a diwylliant wedi'i leoli yng nghanol Aberystwyth.
Croeso i bawb

ENCOURAGING CURIOSITY

A celebration of heritage and culture located in the heart of Aberystwyth.
Everyone welcome

ORIAU AGOR

Dydd Llun-Dydd Sadwrn, 10yb-5yp
Ar Gau: Dydd Sul ac Wythnos y Nadolig

MYNEDIAD AM DDIM

Am ragor o wybodaeth am arddangosfeydd, digwyddiadau, casgliadau, blychau datganfod, ymweliadau ysgolion a grwpiau, a llawer mwy:

www.ceredigionmuseum.wales/hafan
cysylltwch gyda ni:

@Ceredigionmus

www.facebook.com/ceredigionmuseu

OPEN HOURS

Monday-Saturday, 10am-5pm
Closed: Sunday and Christmas Week

ADMISSION FREE

For more information about the exhibitions, events, our collections, discovery boxes, school and group visits and much more, visit:

www.ceredigionmuseum.wales
connect with us on:

@Ceredigionmus

www.facebook.com/ceredigionmuseum

Amgueddfa Ceredigion Museum
Ffordd y Môr / Terrace Road, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 2AQ

01970 633088

amgueddfa@ceredigion.gov.uk

museum@ceredigion.gov.uk